Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Edmwnd Prys
# Gellilydan
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 4DY

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2013**

## Cyd-destun

Ysgol fechan wledig yw Ysgol Edmwnd Prys, sydd wedi ei lleoli yng nghanol pentref Gellilydan tua chwe milltir i'r de o Blaenau Ffestiniog. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o'i chwmpas. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod addysg Gwynedd.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 35 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys dau blentyn sy'n mynychu'n rhan amser. Addysgir yn bennaf yn y Gymraeg. Mae'r niferoedd disgyblion wedi gostwng rhywfaint ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd ym Mehefin 2007.

Disgrifir yr ardal fel un sydd o dan anfantais economaidd ac mae cyrhaeddiad disgyblion yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig yn yr ysgol. Nid oes yr un disgybl â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran sirol a chanran Cymru. Mae 20% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2013. Mae hefyd â chyfrifoldeb dros ysgol arall leol ac yn rhannu ei hamser rhwng y ddwy ysgol. Yn ogystal â'r pennaeth, mae un athrawes amser llawn a dwy athrawes rhan amser.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Edmwnd Prys yn 2012-2013 yn £5,400. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Edmwnd Prys yn y 23ain safle allan o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Edmwnd Prys yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da, a chyflawniadau disgyblion 11 oed yn cymharu'n dda dros gyfnod ag ysgolion tebyg;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad yn uchel a bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog yn cael eu cynllunio ar gyfer y disgyblion, ansawdd yr addysgu yn gyson dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol; a
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a pwrpasol i'r ysgol;
- holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau ac yn gweithio fel tîm;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun ac yn gweithredu cynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar wella safonau a lles disgyblion; ac
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella safon ysgrifennu yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Cysoni'r arfer asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A3 Datblygu ymhellach gallu llywodraethwyr i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

A4 Ymestyn cyfleoedd i athrawon i gydweithio mewn cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer dda tu hwnt i'r ardal leol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion Ysgol Edmwnd Prys ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol a'r rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da ymhob un o'r meysydd dysgu. Maent yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n hyderus ar draws ystod o bynciau.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar yr ychydig ddisgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Gwna'r holl ddisgyblion gynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa a chystrawennau priodol ac mae'r rhan fwyaf yn eu defnyddio'n gywir wrth siarad am eu gwaith. Mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg, yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda rhuglder a mynegiant priodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl gan ymateb yn ystyrlon i'r testun. Defnyddiant eu medrau darllen Cymraeg yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn briodol ar draws ystod o bynciau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn effeithiol i gywain gwybodaeth gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i'w chyflwyno.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu ac yn defnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus i sawl pwrpas. Mae gwaith rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg. Mae safon gwaith ysgrifenedig estynedig y goreuon o ansawdd uchel. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ansawdd gwaith ysgrifenedig mwyafrif y disgyblion yn Saesneg yn dda er bod gwallau sillafu yn amlygu yng ngwaith y lleiafrif. Er hyn, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg ar draws y cwricwlwm wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Nid oes adroddiad data ar gyfer 2012 yn yr adroddiad gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i ddata Cyfnod Sylfaen gael ei gyhoeddi, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd canran y disgyblion 11 oed yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y pedwar pwnc yn gyson uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf dros y cyfnod hwn. Roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel 5) hefyd yn uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd hyn.

Ni fu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a bechgyn nac ym mherfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim dros y blynyddoedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae gan ddisgyblion Ysgol Edmwnd Prys agweddau cadarnhaol iawn at fwyta'n iach ac maent yn cymryd rhan yn egnïol mewn gweithgarwch corfforol amrywiol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwrteisi ar bob adeg.

Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson uchel o'i gymharu ag ysgolion tebyg ac yn y 25% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd hynny. Mae prydlondeb yn dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn mwynhau eu cyfrifoldebau. Mae'r aelodau yn cael cyfle i fynegi barn, datblygu syniadau ac i drafod yn aeddfed ac agored wrth gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol. Enghraifft dda o hyn yw eu cyfraniad tuag at wella'r ardal gymunedol ar dir yr ysgol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a'r gymuned leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac

addysg grefyddol yn llawn. Mae cynllunio bwriadus yn sicrhau amrediad da o brofiadau sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn llwyddiannus wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n drwyadl ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu yn y Gymraeg, rhifedd a technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn sicrhau bod cydlyniad ym mhrofiad y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnyddio'r Saesneg i gofnodi eu gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o awduron ac ymweliadau â'r ardal leol i gyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'u traddodiadau a'u hetifeddiaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd yn effeithiol. Mae'r cyngor eco wedi bod yn llwyddiannus wrth annog gweithdrefnau gwyrdd yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang trwy astudio gwledydd tramor yn dda. Trwy eu gwaith ar brosiectau fel Masnach Deg, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddeall syniadau fel cyfiawnder, tegwch a gofal am bobl llai ffodus.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas ofalgar rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn creu ethos gweithgar ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol iddynt. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau bod y gweithgareddau dosbarth yn ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau. Maent yn gwneud defnydd da o adnoddau. Mae pob aelod o staff yn darparu model ieithyddol da ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a rheolaeth ddosbarth yn effeithiol.

Yn y gwersi, mae athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol i ddisgyblion. Maent yn marcio gwaith y disgyblion yn drylwyr ac yn yr enghreifftiau gorau rhoddir sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Nid yw rôl y disgyblion yn y broses o osod targedau a gwella eu gwaith wedi sefydlu'n gyson drwy'r ysgol.

Mae system tracio cynnydd effeithiol yn weithredol ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd buddiol o asesiadau safonol i adnabod anghenion disgyblion unigol. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn.

Mae'r adroddiadau i rieni yn drylwyr ac yn bodloni'r gofynion statudol mewn modd cryno.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a gofalgar ac mae'r holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel ymysg disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol, ac ar gyfer

hyrwyddo iechyd a lles, yn dda. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth unigol effeithiol ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae hon yn ysgol hapus lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae cyfle da iddynt fynegi barn neu rannu pryder a chael cynhaliaeth gan eu ffrindiau, athrawon a staff.

Mae perthynas weithredol effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer arwain a chefnogi disgyblion o ddydd i ddydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae'r athrawon yn mynd i'r afael yn gynnar iawn i adnabod disgyblion fyddai'n elwa o ymyrraeth fuan ac yn sicrhau darpariaeth fuddiol ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau addysg unigol eu llunio a'u hadolygu'n effeithiol mewn cydweithrediad â'r disgyblion a'u rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae naws deuluol i'r ysgol ac ymdeimlad cartrefol iawn. Mae'n gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae'r ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer y disgyblion. Nid yw'r safle cyfan yn hygyrch i bobl ag anableddau. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael ac mae arddangosfeydd yn creu awyrgylch dysgu lliwgar a symbylus. Mae'r cyfleusterau'n lân ac addas ac mae ansawdd a chyflwr y safle a'r adeilad yn dda. Mae'r staff wedi datblygu'r ardal allanol yn ddiweddar i sicrhau gwell ddefnydd ar gyfer anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn elwa o ddefnyddio'r caeau a'r maes 'astroturf' cymunedol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol. Mae ei disgwyliadau'n uchel ac mae wedi creu ethos cynhwysol sy'n canolbwyntio ar wella safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac maent yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. Drwy ddadansoddi ystod eang o ddata perfformiad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth glir o gryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cyson ar berfformiad disgyblion a'u cyrhaeddiad. Maent yn dod yn fwy

ymwybodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill tebyg. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae gallu'r llywodraethwyr i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cael eu hadlewyrchu yn y cydweithio proffesiynol effeithiol sy'n bodoli yn yr ysgol ac yn lleol. Mae hyrwyddo'r cwricwlwm medrau yn datblygu'n dda ac yn cael effaith bositif ar safonau llythrennedd y disgyblion, yn enwedig yn y Gymraeg. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arfer o hunan-arfarnu wedi ei hen sefydlu yn yr ysgol. Mae'n defnyddio ystod eang o weithdrefnau wrth arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth dda i farn rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion.

Mae'r broses hunan arfarnu yn drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio'n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae'r adroddiad yn rhoi darlun clir o gryfderau ond nid yw meysydd i'w gwella mor amlwg. Mae pob aelod o staff yn deall y rhesymau sydd yn sail i'r blaenoriaethau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb wrth eu gweithredu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ac yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldeb staff yn glir. Mae hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni addas ar gyfer eu cwblhau. Mae trefniadau addas yn eu lle i arfarnu gwelliant.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i atgyfnerthu'i hymrwymiad i rwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion o fewn y dalgylch. Mae'r staff yn ymwneud ag ystod o gyfleoedd hyfforddi ac mae hyn wedi cryfhau agweddau ar y ddarpariaeth megis rhannu cynlluniau gwaith, cydasesu a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi manteisio ar gyfleoedd i rannu arfer dda gydag ysgolion y tu hwnt i'r ardal leol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol. Mae partneriaeth gref yn bodoli â'r rhieni ac maent yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian sylweddol i brynu adnoddau ychwanegol sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddiad a wnaethpwyd yn ddiweddar i wella cyfarpar TGCh, a gwella ystod ac ansawdd llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymagweddau'r disgyblion.

Fe wneir defnydd rheolaidd o ymweliadau i 'r gymuned ac ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion ac i wella eu hymwybyddiaeth o'u hardal leol. Mae ystod werthfawr o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a

chymdeithasol a'r eglwys leol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol.

Mae perthynas agos gyda'r cylch meithrin, sy'n cyfarfod yn yr ysgol, yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu'n fuan yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r trefniadau trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Ceir cydweithio adeiladol gydag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch i drafod cynllunio ar gyfer gwelliant, hyfforddi ar y cyd a safoni gwaith disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn wedi sicrhau gwell ansawdd a chysondeb yn yr ymarfer.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Manteisir yn llawn ar arbenigedd staff o fewn a thu allan i'r ysgol i gynnig profiadau dysgu diddorol a heriol. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o arbenigedd athrawon i addysgu cerdd ac addysg gorfforol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau da a welir. Fe ddefnyddir staff ategol yn effeithiol i gefnogi'r addysgu ac i ofalu a rhoi cymorth i'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Rhoddir pwyslais da ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn ymhellach. Gwna'r athrawon ddefnydd da o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Fe wneir defnydd llawn ac effeithiol o bob rhan o'r adeilad a thir yr ysgol. Caiff cyflenwad ac effaith adnoddau ar addysgu a dysgu eu hadolygu'n gyson a chynllunnir os bydd angen ar gyfer y dyfodol.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion yr ysgol. O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fach.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2 ar gyfer 2012 yn yr adroddiad gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd canran y disgyblion 11 oed yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf dros y cyfnod hwn. Roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel 5) yn y pedwar pwnc hefyd yn uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd hyn.

O ystyried y niferoedd bach, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched nac ychwaith rhwng cyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar holiaduron i rhieni oherwydd nifer bychan yr ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 19 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae’r ymatebion yn gadarnhaol ac yn debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae pob disgybl yn cytuno eu bod yn teimlo’n ddiogel a bod yr ysgol yn delio’n dda gydag unrhyw fwlio. Mae bron pob un yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Mae’r rhan fwyaf yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw’n iach ac yn dweud bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a’r cyfan o’r farn bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob un o’r farn fod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Mae llawer o’r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a’u bod yn gallu gwneud eu gwaith er nad yw ychydig yn cytuno bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Merfyn Lloyd Jones | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iona Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.